

CAIS AM GYMERADWYAETH FOESEGOL

MYFYRWYR YMCHWIL YN UNIG

Mae'r ffurflen hon i'w chwblhau gan y myfyriwr o fewn **CHWE** mis yn achos myfyrwyr llawn amser a **DEUDEG** mis yn achos myfyrwyr rhan amser, ar ôl cychwyn y radd ymchwil neu ar ôl dilyniant i Ran Dau eich cwrs.

Ar ôl ei chwblhau, cyflwynwch y ffurflen hon trwy'r **Porth Coleg Doethurol ar MyTSD** (<https://mytsd.uwtsd.ac.uk>).

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg.

MYFYRWYR YMCHWIL A STAFF YN UNIG

Wrth brosesu'r cais hwn rhaid cyflwyno pob gohebiaeth sy'n ymwneud â'r cais yn ysgrifenedig a'i hanfon drwy e-bost i pgresearch@uwtsd.ac.uk, gyda'r teitl 'Cymeradwyaeth Foesegol' a'ch enw i ddilyn.

Dylai **MYFYRWYR AR RAGLENNI ISRADEDDIG NEU RAGLENNI MEISTR A ADDYSGIR** gyflwyno'r ffurflen hon (a chael y canlyniad) trwy systemau a eglurir i chi gan y goruchwyliwr/arweinydd modwl.

Er mwyn i fudd ddeillio o ymchwil ac i leihau'r risg o niwed, mae'n rhaid ei gynnal yn foesegol. Mae'n bosibl na fydd ymchwilydd wedi'i ddiogelu gan yswiriant y Brifysgol os na chafwyd cymeradwyaeth foesegol cyn cychwyn.

Mae'r Brifysgol yn dilyn diffiniad yr OECD o **weithgarwch ymchwil** a geir yn llawlyfr Frascati: "gwaith creadigol a gyflawnir mewn modd systematig er mwyn cynyddu'r stôr o wybodaeth, yn cynnwys gwybodaeth am ddyn, diwylliant a chymdeithas, a'r defnydd o'r stôr hon o wybodaeth i lunio cymwysiadau newydd" Yn hynny o beth, mae hyn yn cwmpasu gweithgareddau a gyflawnir gan aelodau'r staff, myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, a myfyrwyr ôl-raddedig ac israddedig a addysgir sy'n gweithio ar draethodau hir/prosiectau.

Gelwir yr unigolyn sy'n ymgymryd â'r gweithgarwch ymchwil yn "brif ymchwilydd".

Nid oes angen cymeradwyaeth foesegol ar gyfer archwiliadau arferol, adolygiadau perfformiad, astudiaethau sicrhau ansawdd, profion o fewn gofynion addysgol arferol, a beirniadaeth lenyddol neu artistig.

Darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd cyn cwblhau HOLL adrannau'r ffurflen.

Rhaid i'r ffurflen hon gael ei chwblhau a'i chymeradwyo cyn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch ymchwil. Gweler y Rhestr Wirio am fanylion y broses ar gyfer categorïau gwahanol o geisiadau.

ADRAN A: Amdanoch Chi (Prif Ymchwilydd)

1	Enw Llawn:	Rachel K. Bendall			
2	Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol:	Aelod o'r staff:	☒	Cymrawd ymchwil anrhydeddus:	☐
	Myfyriwr Israddedig	☐	Myfyriwr Ôl-raddedig a Addysgir	☒	Myfyriwr Ymchwil Ôl-raddedig
3	Athrofa/Disgyblaeth Academaidd/Canolfan:	Yr Athrofa: Addysg a'r Dyniaethau			

4	Campws:	Abertawe
5	Cyfeiriad e-bost:	rachel.bendall@uwtsd.ac.uk
6	Rhif Ffôn Cyswllt:	07730655527
I fyfyrwr:		
7	Rhif y Myfyriwr:	1650835
8	Rhaglen Astudio:	MA Llesiant, Dysgu a Dysgu Proffesiynol
9	Cyfarwyddwr Astudiaethau/ Goruchwyliwr:	Nanna Ryder

ADRAN B: Cymeradwyaeth ar gyfer Gweithgarwch Ymchwil

1	A yw'r gweithgarwch ymchwil wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor? (gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd ynglŷn â'r broses gymeradwyo briodol ar gyfer lefelau ymchwil gwahanol gan gategorïau gwahanol o unigolion)	YDY	☒	NAC YDY	☐
Dyddiad					
2	Os Ydy, nodwch ffynhonnell y gymeradwyaeth (a'r dyddiad os yw'n wybyddus) <i>Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth mewn egwyddor gan y ffynhonnell berthnasol cyn gwneud cais am gymeradwyaeth foesegol</i>	Pwyllgor Graddau Ymchwil	☐		
		Pwyllgor Ymchwil yr Athrofa	☐		
		Arall (noder)	☐	Nanna Ryder 26.09.23	

ADRAN C: Deunyddiau Cyfarwyddyd Moesegol Mewnol ac Allanol

	Rhestrwch y dogfennau cyfarwyddyd moesegol craidd y cyfeiriwyd atynt wrth gwblhau'r ffurflen hon (gan gynnwys unrhyw godau moeseg ymchwil penodol i'r ddisgyblaeth, codau moeseg ymchwil penodol i'r lleoliad, a hefyd unrhyw ganllawiau moesegol penodol yn ymwneud â'r fethodoleg arfaethedig). Ticiwch i gadarnhau fod eich cynnig ymchwil yn cydymffurfio â'r codau a'r canllawiau hyn. Gallwch ychwanegu rhesi i'r tabl hwn os oes angen.	
1	Cod Ymarfer Moeseg ac Integreidd Ymchwil PCYDDS	☒
2	Polisi Rheoli Data Ymchwil PCYDDS	☒
3	Canllawiau BERA (2018) https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018	☒

ADRAN D: Gweithgarwch Ymchwil Cydweithredol Allanol

Os oes cydweithwyr allanol yna dylech gael caniatâd gan y bobl gyswllt i rannu eu data personol gyda'r brifysgol. Os nad oes cydweithwyr allanol yna gadewch yr adran hon yn wag a symud ymlaen i adran E.

1	Sefydliad	
2	Enw'r person cyswllt	
3	Cyfeiriad e-bost y person cyswllt	
4	Ydy eich ymchwil yn cael ei ariannu'n allanol?	YDY ☐ NAC YDY ☐
5	Ydych chi'n derbyn ysgoloriaeth KESS?	YDW ☐ NAC YDW ☐
6	Gwirfoddol	YDW ☐ NAC YDW ☐

7	Ydych chi wedi'ch cyflogi'n benodol i ymgymryd â'r ymchwil hwn naill ai am dâl neu'n wirfoddol?	Cyflogedig	YDW	☐	NAC YDW	☐
8	A yw'r ymchwil yn cael ei wneud o fewn un o Bartneriaethau Dysgu Proffesiynol yr Athrofa (PDPA) PCYDDS sy'n bod yn barod?	Os YDY yna nid oes angen ateb y cwestiwn caniatâd isod.	YDY	☐	NAC YDY	☒
9	A oes caniatâd i ymgymryd â'r ymchwil wedi'i roi gan y sefydliad partner?	(Os OES atodwch gopi) Os NA ni all y cais fynd yn ei flaen	OES	☐	NAC OES	☐

Pan fo'r gweithgarwch ymchwil yn cael ei gynnal mewn cydweithrediad â sefydliad allanol

10	A oes gan y sefydliad hwn ei system cymeradwyaeth foesegol ei hun?	OES	☐	NAC OES	☐
	Os Oes, atodwch gopi o unrhyw gymeradwyaeth derfynol (neu gymeradwyaeth interim) gan y sefydliad (gall hwn fod yn gopi o e-bost os yw'n briodol).				

ADRAN E: Manylion y Gweithgarwch Ymchwil

1	Teitl dangosol:	Astudiaeth achos sy'n cymharu'r graddau mae darpar athrawon sydd yn uniaethu yn ddu, Asiaidd a mwyafrifol byd-eang a'u cyfoedion sy'n uniaethu yn wyn yn profi ymdeimlad o berthyn yng nghyd-destun y rhaglen TAR.		
2	Dyddiad cychwyn arfaethedig:	16.10.23	Dyddiad gorffen arfaethedig:	24.03.24
3	Cyflwyniad i'r Ymchwil (uchafswm o 300 o eiriau i bob adran) Gwnewch yn siŵr eich bod yn ysgrifennu ar gyfer <u>Cynulleidfa Anarbenigol</u> wrth amlinellu eich ymateb i'r pwyntiau isod: <i>Pwrpas y Gweithgarwch Ymchwil</i> <i>Cwestiwn Ymchwil Arfaethedig</i> <i>Nodau'r Gweithgarwch Ymchwil</i> <i>Amcanion y Gweithgarwch Ymchwil</i> Dangoswch, yn gryno, sut mae <u>Ymchwil Cyfredol</u> wedi arwain y gweithgarwch arfaethedig ac esboniwch <i>Beth fydd y gweithgarwch ymchwil yn ei ychwanegu at y corff gwybodaeth</i> <i>Sut mae'n mynd i'r afael â maes o bwys.</i>			
	Pwrpas y Gweithgarwch Ymchwil Bydd y gweithgarwch ymchwil hwn yn digwydd o fewn cyd-destun rhaglen Tystysgrif Addysg Raddedig (TAR) Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa (PDPA). Cwrs deng mis ydy'r rhaglen TAR a'r PDPA ydy'r bartneriaeth addysg gychwynnol athrawon (AGA) sy'n bodoli rhwng Yr Athrofa, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a deunaw rhwydwaith o ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r rhaglen TAR wedi'i rhannu i dair semester. Caiff deuddeg wythnos eu treulio yn y brifysgol, a phedair wythnos ar hugain mewn dwy ysgol wahanol, sef y Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP). Tra yn y brifysgol, mae darpar athrawon (<i>student-teachers</i>) yn mynychu darlithoedd, neu sesiynau, fel grwpiau addysgu, grwpiau tiwtor personol, a grwpiau rhwydwaith sef y darpar athrawon hynny sy'n cael eu lleoli o fewn yr un rhwydwaith o ysgolion. O fewn ysgolion, mae darpar athrawon yn dilyn trefn ddiwrnod arferol yr ysgolion hynny. Eleni mae 235 o ddarpar athrawon wedi cofrestru ar y rhaglen TAR, ac mae 5.1% o'r cohort wedi nodi bod eu grŵp ethnig yn y categori Du, Asiaidd a			

	Mwyafrifol Byd-eang (<i>Black, Asian and Global Majority</i>). Mae'r ffigwr hwn yn arwyddocaol yng nghyd-destun ehangach addysg yng Nghymru lle mae tua 11% o blant oed ysgol yn dod o gefndiroedd ethnig du, Asiaidd a mwyafrifol byd-eang a lle mae gan Lywodraeth Cymru ymgyrch i recriwtio mwy o ddarpar athrawon o'r cefndiroedd hyn i raglenni AGA. Pwrpas y gweithgarwch ymchwil hwn ydy datblygu dealltwriaeth o'r hyn a olygir gan y term 'perthyn' a sut, os o gwbl, mae ymdeimlad o berthyn yn effeithio ar lesiant unigolion sydd wedi cofrestru ar y rhaglen TAR yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-24. Bydd yna ffocws penodol ar brofiadau unigolion sy'n uniaethu yn ddu, Asiaidd a mwyafrifol byd-eang o gymharu gyda'u cyfoedion sy'n uniaethu yn wyn, ac mae yna dri phrif rheswm am hyn: - Awgryma erthygl Chapman et al (2023) https://doi.org/10.1080/03004279.2023.2229861 sy'n archwilio'r syniad o berthyn ymhlith dysgwyr oed ysgol gynradd, fod yr ymdeimlad o berthyn yn unigryw i bob unigolyn. Bydd yr ymchwil hwn felly yn archwilio'r graddau mae'r casgliadau yn wir pan ddaw at ôl-raddedigion TAR mewn addysg uwch. - Ymgyrch gyfredol Llywodraeth Cymru ar ddenu mwy o bobl dduon, Asiaidd a mwyafrifol byd-eang i raglenni addysg gychwynnol athrawon a'r proffesiwn addysgu (https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-bartneriaethau-aga-chyngor-y-gweithlu-addysg-yng-hylch-cynllun-cymhelliant-addysg). Bydd yr ymchwil hwn yn archwilio'r rhesymau pam ymunodd y darpar athrawon o'r cefndiroedd hyn â'r rhaglen TAR. - Ymchwil sydd eisoes wedi'i wneud ym meysydd llesiant ac ymdeimlad o berthyn ymhlith myfyrwyr ol-raddedig mewn addysg uwch, er enghraifft Morris (2021) https://www.emerald.com/insight/2398-4686.htm, ond nad sy'n archwilio'r cysyniadau hyn o safbwynt grwpiau neu unigolion penodol o fewn y cohort ehangach o fyfyrwyr. Un ddamcaniaeth sydd wedi dylanwadu ar bwrpas fy ymchwil ydy Damcaniaeth Gyfiawnder a Thegwch Rawls (1972) sy'n awgrymu rhyddid sylfaenol cyfartal, cyfle cyfartal, a hwyluso'r budd mwyaf i'r aelodau lleiaf breintiedig o gymdeithas mewn unrhyw achos lle gall anghydraddoldebau ddigwydd. Damcaniaeth arall sy'n dylanwadu ydy Dull Medrau (<i>Capabilities Approach</i>) Sen (1982) a Nussbaum (1997) sy'n dadlau mae llesiant yn dibynnu ar allu ac hawl unigolion a chymunedau i gael mynediad i'r adnoddau sydd ar gael a rôl rheiny sydd mewn awdurdod wrth leihau'r rhwystrau sy'n effeithio ar y mynediad hwn. Bydd y berthynas awgrymedig hon rhwng gweithredoedd rheiny sydd mewn awdurdod, hynny yw PDPA, a lles unigolion a chymunedau, sef darpar athrawon sy'n uniaethu yn ddu, Asiaidd a mwyafrifol ethnig o'u cymharu gyda'u cymheiriaid sy'n uniaethu yn wyn o fewn strwythur y rhaglen TAR, yn ganolbwynt i'r ymchwil hwn. (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)
4	Cwestiwn Ymchwil Beth yw canfyddiadau darpar athrawon sy'n uniaethu yn ddu, Asiaidd a mwyafrifol byd-eang am berthyn yng nghyd-destun y rhaglen TAR o'u cymharu gyda'u cyfoedion sy'n uniaethu yn wyn? (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)
5	Nodau'r Gweithgarwch Ymchwil Rwyf wedi llunio nodau'r gweithgarwch ymchwil ar ffurf cyfres o gwestiynau: - Beth mae darpar athrawon yn ystyried ydy ystyr y term/cysyniad 'perthyn' yn gyffredinol ac yng nghyd-destun y rhaglen TAR? - Beth, os unrhyw beth, mae'r rhaglen TAR yn cynnig sy'n helpu darpar athrawon i deimlo eu bod yn perthyn o fewn y cyd-destun hwnnw?

	- Beth medraf ddysgu o ganfyddiadau darpar athrawon gallai ddylanwadu ar ddarpariaeth y rhaglen TAR sy'n ei gwneud yn opsiwn deniadol i bobl sy'n uniaethu'n ddu, Asiaidd a mwyafrifol byd-eang sy'n ystyried astudio i fod yn athrawon? (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)
6	Amcanion y Gweithgarwch Ymchwil Gan wneud defnydd o ddull astudiaeth achos, holiaduron a grwpiau ffocws dyma ydy amcanion y gweithgarwch ymchwil: - Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ganfyddiadau darpar athrawon duon, Asiaidd a mwyafrifol byd-eang sy'n dilyn y rhaglen TAR am berthyn trwy archwilio'u profiadau mewn sesiynau tiwtor personol, darlithoedd modiwl, cyfarfodydd rhwydwaith yn y brifysgol, a thra ar eu profiad addysgu proffesiynol mewn ysgol. (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)
	Dulliau arfaethedig (uchafswm o 600 o eiriau) Rhowch grynodeb byr o'r holl ddulliau y gellid eu defnyddio yn y gweithgarwch ymchwil, gan ei gwneud yn glir pa dechnegau penodol fydd o bosibl yn cael eu defnyddio. Os ystyrir yn ddiweddarach bod dulliau heblaw am y rhai a restrwyd yn yr adran hon yn briodol, bydd angen cymeradwyaeth foesegol ychwanegol ar gyfer y dulliau hynny. Nid oes angen i chi gyfiawnhau'r dulliau yma, ond yn hytrach dylech ddisgrifio sut rydych chi'n bwriadu casglu'r data sydd eu hangen i gwblhau eich prosiect.
7	Fy mwriad ydy cynnal astudiaeth achos archwiliadol er mwyn ymchwilio i ganfyddiadau darpar athrawon y rhaglen TAR o'r hyn a olygir gan 'berthyn'. Pwrpas yr astudiaeth achos yma yw i ymchwilio i mewn i achos penodol mewn cyd-destun bywyd go-iawn sy'n seiliedig ar ymchwil a chanfyddiadau (Simmons, 2009, t.21). Mae dwy elfen i Astudiaeth Achos sef y 'gwrthrych' (object) – pwrpas yr Astudiaeth Achos, a'r 'pwnc' (subject) sef y cerbyd rwyf am ei ddefnyddio i ddod at, ac i ddatgymalu'r achos. Yn fy astudiaeth achos, y 'gwrthrych' fydd archwilio'r cyswllt rhwng ymdeimlad o berthyn a llesiant darpar athrawon; a'r 'pwnc' (subject) ydy darpar athrawon duon, Asiaidd a mwyafrifol byd-eang o gymharu gyda'u cyfoedion gwyn sy'n dilyn y rhaglen TAR. Er mwyn canfod barn gyffredinol holl ddarpar athrawon y rhaglen TAR am syniadau sy'n ymwneud â pherthyn, llesiant a darpariaeth y rhaglen TAR, bwriadaf greu a chynnal holiadur gwirfoddol, anhysbys a chyfrinachol ar-lein (Cohen, Manion & Morrison, 2018). Bydd yr holiadur yn cynnwys amrywiaeth o gwestiynau caeedig, aml-ddewis, graddfa a mynegi barn, ac fe fydd y cwestiynau wedi eu geirio mewn iaith berthnasol sydd yn ddealladwy ac yn hygyrch i'r darllenydd. Mi fydd datganiad ar ddechrau'r holiadur sy'n cadarnhau anhysbysrwydd a chyfrinachedd y cyfranogwyr a'r hawl i dynnu nol ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwil (BERA, 2018). Bydd llenwi'r holiadur yn ddewisol ac yn wirfoddol gyda gwahoddiad yn mynd i holl ddarpar athrawon y cohort TAR trwy Moodle. Yn ogystal â'r data a gesglir drwy'r holiadur, mae'n fwriad gen i ddefnyddio dull ymchwil arall sef cynnal cyfweiliad ar ffurf grŵp ffocws (Creswell, 2012). Bydd y cyfweiliad yma yn gyfle i wrando ar farn/llais y darpar athrawon gan gasglu gwybodaeth fanwl a chael mewnwelediad i'w meddyliau trwy holi cwestiynau amrywiol (Adams, 2015). Ar gyfer y cyfweiliad grŵp ffocws, defnyddiaf y dull lled-strwythuredig lle bydd cyfle i'r cyfranogwyr ymhelaethu ar eu meddyliau ac esbonio eu profiadau a'u canfyddiadau (Cohen, Manion & Morrison, 2018). Bwriad y cyfweiliad fydd i gasglu gwybodaeth gan y cyfranogwyr er mwyn deall eu barn nhw a'u teimladau am ddarpariaeth y rhaglen TAR sy'n dylanwadu ar ymdeimlad o berthyn ar adegau penodol o'r flwyddyn academiaidd. O ran strwythur y cyfweiliad lled-strwythuredig, paratwir cwestiynau ymlaen llaw, gan gynnwys prif gwestiynau ac is-gwestiynau. Mi fydd y cwestiynau wedi'u strwythuro'n llac er mwyn sicrhau bod y

	sgwrs a'r drafodaeth yn digwydd mewn ffordd naturiol gyda chwestiynau a syniadau newydd yn datblygu'n naturiol yn ystod y cyfweiliad. Bydd hyn yn gyfle i'r cyfranogwyr fynegi eu hunain yn llawn yn ystod y cyfweiliad (Bell & Waters, 2018). Er mwyn dewis cyfranogwyr ar gyfer y grŵp ffocws, fy mwriad ydy defnyddio dull samplu bwriadus sy'n ddull annhebygolrwydd o samplu (Denscombe, 2021). Nod y dull hwn ydy dewis trawsdoriad o boblogaeth cohort y rhaglen sy'n cynnwys darpar athrawon duon, Asiaidd a mwyafrifol byd-eang sy'n grŵp lleiafrifol ar y rhaglen TAR yn ogystal â'u cymheiriaid gwyn sy'n grŵp mwyafrifol ar y rhaglen TAR. Gellir dadlau bod y dull hwn yn ffordd o gasglu'r wybodaeth 'orau' gan gyfranogwyr (ibid.) Byddaf yn cymryd recordiadau sain o'r cyfweiliadau ar ddyfais <i>Surface Pro</i> a ddarperir i mi gan y brifysgol er mwyn i mi eu hadysgrifio'n ddiweddarach. Bydd hyn yn caniatáu i mi sicrhau bod y data a ddaw o'r cyfweiliadau grŵp ffocws wedi'u cofnodi'n gywir. Yn ystod cyfweiliadau'r grwpiau ffocws, fy mwriad ydy cymryd nodiadau maes cyffredinol. Fel gyda'r holiadur, byddaf yn cadarnhau bod cymryd rhan yn y grŵp ffocws yn wirfoddol, ac yn diogelu anhysbysrwydd a chyfrinachedd y cyfranogwyr trwy defnyddio dull o'u hadnabod (e.e drwy roi rhif i bob un) rhag ofn y byddant yn gofyn i dynnu nôl yn ystod yr ymchwil. Bydd yr ymchwil yma yn cael ei gefnogi gan ymchwil eilaidd, sef adolygiad llenyddiaeth, er mwyn gwerthuso'r canfyddiadau'n feirniadol, gan gynnig hefyd fewnwelediad a safbwyntiau gwahanol er mwyn creu darlun mor gyflawn ag sy'n bosib. Bydd yr adolygiad llenyddiaeth yn ddull defnyddiol fel sail i'r ymchwil. Ymchwil yn seiliedig ar ddulliau cymysg, hynny yw. data ansoddol a meintiol, fydd yr ymchwil hwn. (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)
	Lleoliad y gweithgarwch ymchwil Nodwch yr holl leoliadau lle cynhelir y gweithgarwch ymchwil.
8	Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant – adeilad IQ/Fforwm, neu ar Teams. Ni fydd yr ymchwil yn digwydd ar unrhyw safle ysgol. (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)
	Gweithgarwch ymchwil y tu allan i'r DU Os cynhelir gweithgarwch ymchwil dramor, chi sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir ag ystyriaethau moesegol lleol ac y ceisir y caniatâd perthnasol. Nodwch unrhyw ganllawiau lleol sy'n bodoli (e.e. gan gymdeithasau proffesiynol lleol/cymdeithasau dysgedig/prifysgolion) a nodwch a yw'r rhain yn cynnwys amodau moesegol y tu hwnt i'r hyn sy'n arferol yn y DU (rhowch fanylion unrhyw drwyddedau neu ganiatâd sydd eu hangen). Yn ogystal nodwch a oes unrhyw faterion moesegol penodol yn codi yn sgil y cyd-destun lleol lle cynhelir y gweithgarwch ymchwil, er enghraifft, materion diwylliannol a/neu gyfreithiol sensitif neu achosion lle mae'r cyfranogwyr yn agored i niwed. Os ydych chi'n byw yn y wlad ble byddwch yn gwneud yr ymchwil yna nodwch hyn.
9	N/A (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

10	Defnyddio dogfennau nad ydynt wedi'u cyhoeddi: A oes unrhyw rai o'r dogfennau NAD ydynt ar gael yn gyhoeddus?	NAC OES	☒
		OES	☐
11	Os Oes, rhowch fanylion yma o'r modd y byddwch yn cael mynediad at ddogfennaeth benodol nad yw ar gael yn gyhoeddus a bod hyn yn unol â chyfraith diogelu data gyfredol y wlad dan sylw a Chymru a Lloegr. (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		

	A yw eich ymchwil yn ymwneud ag un neu fwy o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?	YDY	NAC YDY
12	Cymru lewyrchus	☐	☒
13	Cymru gydnerth	☐	☒
14	Cymru iachach	☒	☐
15	Cymru sy'n fwy cyfartal	☒	☐
16	Cymru o gymunedau cydlynus	☒	☐
17	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	☒	☐
18	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	☐	☒
19	Os atebwyd YDY i unrhyw rai o'r uchod, rhwng fanylion:		
	Cymru iachach - Gyda'i ffocws ar y berthynas bosib a fodolai rhwng ymdeimlad o berthyn a llesiant unigolion, cyfranna'r ymchwil hwn at ddatblygu darpariaeth y rhaglen TAR i fod yn rhywbeth sy'n cefnogi llesiant meddyliol darpar athrawon a deall sut mae'r ddarpariaeth yn medru bod o fudd i iechyd meddyliol grwpiau penodol o ddarpar athrawon yn y dyfodol. Cymru sy'n fwy cyfartal – trwy gymharu canfyddiadau darpar athrawon duon, Asiaidd a mwyafrifol byd-eang, gyda chanfyddiadau eu cymheiriaid gwyn, y nod yw adnabod unrhyw feysydd lle gallwn wella'n ddarpariaeth i alluogi pobl i gyflawni eu potensial ar y rhaglen TAR. Cymru o gymunedau cydlynus – gellir dysgu o ganfyddiadau darpar athrawon o'r hyn mae perthyn yn golygu iddyn nhw, a sut allai'r canfyddiadau hyn ddylanwadu ar greu cymuned atyniadol a chynhwysol yng nghyd-destun y rhaglen TAR. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – bydd yr holl ddulliau ymchwil rwy'n eu defnyddio yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog gyda chyfle i gyfranogwyr ymateb yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddaf yn ysgrifennu fy ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg. (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		

ADRAN F: Cwmpas y Gweithgarwch Ymchwil

	A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys:	BYDD	NA FYDD
1	Defnyddio holiadur neu offeryn ymchwil tebyg?	☒	☐
2	Defnyddio cyfweiliadau?	☒	☐
3	Defnyddio grwpiau ffocws?	☒	☐
4	Defnyddio dyddiaduron cyfranogwyr?	☐	☒
5	Defnyddio recordiadau fideo neu sain?	☒	☐
6	Defnyddio ffeiliau log a gynhyrchir gan gyfrifiadur?	☐	☒
7	Arsylwi ar gyfranogwyr a hwythau'n ymwybodol o hynny?	☐	☒
8	Arsylwi ar gyfranogwyr a hwythau ddim yn ymwybodol o hynny?	☐	☒
9	Mynediad i wybodaeth bersonol neu gyfrinachol heb gydsyniad penodol y cyfranogwyr?	☒	☐

10	Defnyddio unrhyw gwestiynau, ysgogiadau prawf neu gyflwyniad a allai, ym mhrofiad rhai, achosi niwed / tramgwydd corfforol, meddyliol neu emosiynol?	☐	☒
11	Cyflawni unrhyw weithredoedd a allai achosi embaras neu effeithio ar hunan-barch?	☐	☒
12	Ymchwilio i gyfranogwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau anghyfreithlon?	☐	☒
13	Defnyddio gweithdrefnau sy'n cynnwys twyll?	☐	☒
14	Rhoi unrhyw sylwedd, cyfrwng neu blasebo?	☐	☒
15	Gweithio gydag anifeiliaid fertebraidd byw?	☐	☒
16	Gweithdrefnau a allai gael effaith negyddol ar yr amgylchedd?	☐	☒
17	Dulliau eraill o gasglu data gwreiddiol. Nodwch y math o ddull(iau) casglu data isod.	☐	☒
	Manylion unrhyw ddulliau eraill o gasglu data gwreiddiol: Defnyddia'r rhaglen TAR ffynhonnell gasglu a chadw data personol darpar athrawon a elwir yn Health Check. Pwrpas yr Health Check ydy dull o dracio a monitro cynnydd, cyrhaeddiad a lles y darpar athrawon. Mae data tras hiliol neu ethnig eisoes yn cael ei casglu fel rhan o'r Health Check ac fe ddaw'r wybodaeth o'r ffurflenni cofrestru a lenwir gan ddarpar athrawon yn ystod y broses gofrestru. Caiff ei defnyddio gan y brifysgol er mwyn gofalu bod cyfartaledd a thegwch yn cael eu profi gan grwpiau penodol o fyfyrwyr. Mae lles, cynnydd a chyrhaeddiad y grwpiau hyn yn cael eu harolygu gan Estyn fel rhan o'i fframwaith arolygu. Byddaf yn gwneud defnydd o'r data hyn i weithredu dull samplu bwriadol ar gyfer aelodau'r grwpiau ffocws, ac mae canfyddiadau'r cyfranogwyr hyn o'r cysyniad 'perthyn' yn ganolbwynt i fy ymchwil. (dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		

Os atebwyd NA FYDD i bob cwestiwn, yna mae'r gweithgarwch ymchwil yn isel ei risg (yn foesebol) a **gall** fod wedi'i eithrio rhag **rhai** o'r adrannau canlynol (gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd).

Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, ni ddylid ymgymryd â gweithgarwch ymchwil tan y ceir cymeradwyaeth foesebol lawn.

ADRAN G: Cyfranogwyr Arfaethedig

Os nad oes cyfranogwyr, peidiwch â llenwi'r adran hon, ond ewch yn uniongyrchol i adran H.

	Pwy yw'r cyfranogwyr arfaethedig:	IE	NA
1	Myfyrwyr neu staff yn y Brifysgol?	☒	☐
2	Oedolion (dros 18 oed ac sy'n gymwys i gydsynio)?	☒	☐
3	Oedolion agored i niwed?	☒	☐
4	Plant a Phobl Ifanc dan 18 oed? (Bydd angen cydsyniad Rhiant, Gofalwr neu Warcheidwad)	☐	☒
5	Carcharorion?	☐	☒
6	Troseddwyd ifanc?	☐	☒
7	Y rhai y gellid ystyried bod ganddynt berthynas arbennig o ddibynol â'r ymchwilydd neu gyfryngwr (<i>gatekeeper</i>)?	☐	☒
8	Pobl sy'n ymwneud â gweithgareddau anghyfreithlon?	☐	☒
9	Eraill. Nodwch y cyfranogwyr isod ac, yn benodol, unrhyw grŵp nad ydynt efallai'n gallu rhoi cydsyniad).	☐	☒

	Manylion unrhyw grwpiau cyfranogwyr eraill:		
	(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		

	Niferoedd a ffynhonnell y cyfranogwyr Rhowch amcangyfrif o'r nifer disgwylledig o gyfranogwyr. Sut byddwch chi'n canfod cyfranogwyr a sut cânt eu recriwtio?		
10	Faint o gyfranogwyr a ddisgwylir?	Tua 235 o gyfranogwyr ar gyfer yr holiadur. Tua 24 ar gyfer cyfweiliadau'r grwpiau ffocws. <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>	
11	Pwy fydd y cyfranogwyr?	Darpar athrawon y rhaglen TAR (cynradd ac uwchradd). <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>	
12	Sut byddwch chi'n canfod y cyfranogwyr?	Bydd yr holiadur yn cael ei rannu gyda chyfranogwyr potensial drwy ddull samplu cyfleus, hynny yw mae'r darpar athrawon yn dilyn y rhaglen TAR a medraf eu gwahodd i lenwi'r holiadur drwy Moodle. Bydd llenwi'r holiadur yn wirfoddol, ac ni fydd yn amharu neu'n effeithio ar astudiaethau'r darpar athrawon. Caiff cyfranogwyr y grwpiau ffocws eu dewis drwy ddull samplu bwriadus er mwyn sicrhau trawstoriad o boblogaeth y cohort TAR. <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>	

	Gwybodaeth i gyfranogwyr:	BYDDAF	NA FYDDAF	AMH.
13	A fyddwch chi'n disgrifio'r prif weithdrefnau ymchwil i gyfranogwyr ymlaen llaw, fel eu bod yn cael gwybod beth i'w ddisgwyl?	☒	☐	☐
14	A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr fod eu cyfranogiad yn wirfoddol?	☒	☐	☐
15	A fyddwch chi'n cael cydsyniad ysgrifenedig gan y rhai sy'n cymryd rhan?	☒	☐	☐
16	A fyddwch chi'n egluro wrth y cyfranogwyr na fydd gwrthod cymryd rhan yn yr ymchwil yn effeithio ar eu triniaeth neu'u haddysg (os yn berthnasol)?	☒	☐	☐
17	Os yw'r ymchwil yn arsylwadol, a fyddwch chi'n gofyn i'r cyfranogwyr am eu cydsyniad i gael eu harsylwi?	☐	☐	☒
18	A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr eu bod yn gallu tynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg ac am unrhyw reswm?	☒	☐	☐
19	Gyda holiaduron, a fyddwch chi'n rhoi'r dewis i gyfranogwyr i hepgor cwestiynau nad ydynt am eu hateb?	☒	☐	☐
20	A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr yr ymdrinnir â'u data yn gwbl gyfrinachol ac, os cânt eu cyhoeddi, na ellir eu hadnabod fel eu data hwy?	☒	☐	☐
21	A fyddwch yn cynnal ôl-drafodaeth gyda'r cyfranogwyr wedi iddynt gymryd rhan, mewn modd sy'n briodol i'r math o ymchwil a gynhaliwyd?	☒	☐	☐
22	Os atebwyd NA FYDDAF i unrhyw rai o'r cwestiynau uchod, rhowch eglurhad			



	(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)
--	---

	Gwybodaeth i gyfranogwyr:	BYDD	NA FYDD	AMH.
24	A fydd pob cyfranogwr yn cael ei dalu?	☐	☒	☐
25	A fydd offer trydanol arbenigol neu offer arall yn cael ei ddefnyddio gyda'r cyfranogwyr?	☐	☒	☐
26	A fydd unrhyw fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill i'r ymchwilydd neu'r Brifysgol yn deillio o'r astudiaeth hon?	☐	☒	☐
27	A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys camarwain cyfranogwyr yn fwriadol mewn unrhyw fodd, neu guddio nodau penodol yr astudiaeth yn rhannol neu'n llawn?	☐	☒	☐
28	Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, rhowch fanylion llawn			
	(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)			

ADRAN H: Risgiau a Ragwelir

	Amlinellwch unrhyw risgiau a ragwelir a allai gael effaith niweidiol ar unrhyw rai o'r cyfranogwyr, yr ymchwilydd a/neu'r Brifysgol, a'r camau a gymerir i fynd i'r afael â nhw. Os ydych wedi cwblhau asesiad risg llawn (er enghraifft fel sy'n ofynnol gan labordy, neu gydweithiwr ymchwil allanol) gallwch atodi'r asesiad hwnnw i'r ffurflen hon.		
1	A oes asesiad risg llawn wedi'i gwblhau a'i atodi?	Oes	☐
		Nac oes	☒
2	Risgiau i'r cyfranogwyr Er enghraifft: iechyd a diogelwch penodol i'r sector, gofid emosiynol, datgeliad ariannol, niwed corfforol, trosglwyddo data personol, gwybodaeth sefydliadol sensitif		
	Risg i'r cyfranogwyr: Risg bod cyfranogwyr yn teimlo dan bwysau i ateb neu gymryd rhan yn yr ymchwil gan fy mod i yn aelod o staff ac mewn safle awdurdodol. Risg bod rhai o gwestiynau'r holiadur neu drafodaethau'r grwpiau ffocws yn cynnwys gwybodaeth sensitif ac yn effeithio ar gyfranogwyr yn emosiynol.	Sut y byddwch yn lleihau'r risg i'r cyfranogwyr: Cyn bod y cyfranogwyr yn cymryd rhan yn yr ymchwil, byddaf yn gofyn am eu cydsyniad gwirfoddol ar ffurf taflen wybodaeth i'w llofnodi. Bydd y daflen wybodaeth yn cadarnhau mai gwirfoddol ydy cymryd rhan yn yr ymchwil, nad yw'r ymchwil yn gysylltiedig gyda'u hastudiaethau ac mae hawl i dynnu nôl ar unrhyw adeg. Ail-adroddaf y negeseuon hyn ar lafar cyn cychwyn ar ac yn rheolaidd yn ystod yr ymchwil hefyd i'w hatgoffa. Bydd pwrpas a phrif themâu'r ymchwil yn cael eu rhannu gyda chyfranogwyr drwy daflen wybodaeth ac ar lafar drwy gydol yr ymchwil fel eu bod yn llwyr ymwybodol o'r math o gynnwys bydd yn cael ei drafod. Byddaf yn atgoffa cyfranogwyr o'u hawl i dynnu nôl o'r ymchwil, ac	



	<i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>	i gael seibiant o unrhyw drafodaethau sy'n codi yn ystod y grwpiau ffocws pe bai angen. Byddaf hefyd yn cyfeirio cyfranogwyr o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt o fewn y brifysgol sy'n medru eu cefnogi'n emosiynol pe bai rhywbeth annisgwyl yn codi sy'n arwain at deimladau ac emosiynau nad oes eu heisiau. <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>
3	Os yw'r gweithgarwch ymchwil yn cynnwys pynciau sensitif neu bynciau sy'n peri gofid neu gywilydd (e.e. gweithgarwch rhywiol, defnydd o gyffuriau) neu faterion sy'n debygol o ddatgelu gwybodaeth sy'n galw am weithredu pellach (e.e. gweithgarwch troseddol), rhwch fanylion y gweithdrefnau i ddelio â'r materion hyn, gan gynnwys unrhyw gefnogaeth/gyngor (e.e. rhifau llinellau cymorth) a gynigir i'r cyfranogwyr. Sylwer, lle bo hynny'n berthnasol, y dylai gweithdrefnau cydsynio ei gwneud yn glir os darganfyddir rhywbeth sydd, neu a allai fod, yn anghyfreithlon yn ystod prosiect, ei bod yn bosibl y bydd angen ei ddatgelu i'r awdurdodau priodol	
	Dyma'r wybodaeth byddaf yn rhannu gyda chyfranogwyr sy'n medru eu cefnogi gyda materion emosiynol efallai bydd yn codi: https://www.uwtsd.ac.uk/student-services/wellbeing-support/connect/ <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>	
4	Risgiau i'r ymchwilydd Er enghraifft: iechyd a diogelwch personol, niwed corfforol, gofid emosiynol, risg o gyhuddiad o niwed/ anwedduster, gwrthdaro buddiannau	
	Risg i'r ymchwilydd: Cyhuddo o greu data ffug a fyddai'n ateb y cwestiwn ymchwil sy'n risg i onestrwydd yr ymchwilydd. Mae yna risg i ddiogelwch personol yr ymchwilydd wrth ymgymryd â grwpiau ffocws fel unigolyn. <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>	<i>Sut y byddwch yn lleihau'r risg i'r ymchwilydd:</i> Byddaf yn cymryd recordiad sain o gyfweiliadau'r grwpiau ffocws, ac yn creu trawsgrifiad o'r cyfweiliadau mewn ffordd gywir. Dilynaf ganllawiau BERA (2018) a'r cynllun ymarfer moesegol a luniwyd yn unol â Chod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil PCYDDS. Gofalaf fy mod yn dweud wrth gydweithwyr ble a phryd bydd y cyfweiliadau grwpiau ffocws yn cael eu cynnal, a sicrhau bod cofnod yn fy nghalendr gwaith sydd eisoes wedi'i rannu gyda rheolwyr llinell a chydweithwyr eraill. <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>
5	Risgiau i'r Brifysgol/sefydliad Er enghraifft: cyhoeddusrwydd gwael, colled ariannol, diogelu data	
	Risg i'r Brifysgol: Peryglu enw da'r Brifysgol Risg y bydd yna gyhuddiad bod rhai myfyrwyr yn cael eu trin yn fwy ffafriol/anffafriol nag eraill	<i>Sut y byddwch yn lleihau'r risg i'r brifysgol:</i> Sicrhau ymlyniad wrth god moeseg a safonau ymchwil y PCYDDS a safonau arferion da a gytunwyd arnynt yn gyffredinol, gan hefyd lynnw wrth God BERA (2018). Sicrhau bod yna gydymffurfio gyda Deddf Cydraddoldeb 2010, a nad oes unrhyw dor hawlfraint sydd wedi'i gynnwys yn natganiad cyffredinol o hawliau dynol.

	Risg y gall gwybodaeth neu hunaniaeth y cyfranogwr gael ei ddatgelu neu bod anhysbysrwydd cyfranogwyr yn cael ei beryglu fydd yn creu cyhoeddusrwydd negyddol i'r brifysgol <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>	Dilyn canllawiau BERA (2018) a chanllawiau Diogelu Data y brifysgol er mwyn diogelu hunaniaeth a gwybodaeth bersonol y cyfranogwyr a sicrhau anhysbysrwydd. Caiff data crai (recordiad sain o'r cyfweiliadau grŵp ffocws) ei storio ar gyfrifiadur a ddarperir gan y brifysgol ac sydd wedi ei ddiogelu gan gyfrinair a system dilysu dau gam. Caiff y data crai ei storio yn y 'cwmwl' ar feddalwedd Microsoft Office 365 y brifysgol sydd hefyd wedi ei ddiogelu gan gyfrinair a system dilysu dau gam. Caiff data crai ei dileu yn syth ar ôl dadansoddi'r data (h.y. dileu'r recordiad sain o'r cyfweiliadau grŵp ffocws). <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>
6	Risgiau amgylcheddol Er enghraifft: gollwng llygryddion yn ddamweiniol, niwed i ecosystemau lleol	
	Risg i'r amgylchedd: Defnyddio papur Teithio - ôl troed carbon <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>	<i>Sut y byddwch yn lleihau'r risg i'r amgylchedd:</i> Bydd y weithgaredd ymchwil gan amlaf yn defnyddio systemau electronig er mwyn lleihau'r risg i'r amgylchedd. Bydd yr ymchwil yn digwydd yn adeiladau'r brifysgol pan fydd y cyfranogwyr eisoes ar gampws. Pan fydd cyfranogwyr allan mewn ysgolion ar gyfer eu Profiad Addysgu Proffesiynol, gwnawn ddefnydd o Moodle a Teams i gyfathrebu fydd yn osgoi'r angen i deithio. <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)				
	Os yw gweithgarwch ymchwil yn cynnwys plant neu oedolion agored i niwed, mae'n rhaid cael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn dod i unrhyw gysylltiad â'r cyfranogwyr hyn.	OES	NAC OES	AMH.
7	A oes angen Tystysgrif DBS gyfredol arnoch ar gyfer eich ymchwil?	☒	☐	☐
8	Os OES, nodwch rif y dystysgrif. Os nad yw rhif y dystysgrif ar gael, nodwch "I ddilyn"; yn yr achos hwn bydd unrhyw gymeradwyaeth foesegol yn amodol ar ddarparu'r rhif tystysgrif priodol.	001732388729		

ADRAN I: Adborth, Cydsyniad a Chyfrinachedd

1	Adborth Pa ôl-drafodaeth ac adborth a ddarperir i'r cyfranogwyr, sut y gwneir hyn a phryd?
	Yn ystod cyfweiliadau'r grwpiau ffocws byddaf yn rhoi seibiant o ddeg munud i'r cyfranogwyr. Yn ystod y deg munud hyn, byddaf yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd ar sleid PowerPoint neu



	ddogfen Word ac yna'n gofyn i'r cyfranogwyr i ba raddau mae'r crynodeb yn adlewyrchu'r hyn a ddywedon nhw a gwirio a ydynt yn hapus gyda'r ymatebion a rhoddwyd cyn symud ymlaen. Byddaf yn diolch i'r cyfranogwyr am eu hamser ac yn sôn wrthynt bydd dadansoddiad o'r data ar gael pan fydd yr ymchwil yn cael ei ysgrifennu. <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>
2	Cydsyniad gwybodus Disgrifiwch y trefniadau i hysbysu darpar gyfranogwyr, cyn iddynt roi cydsyniad, o'r hyn mae'n ei olygu i gymryd rhan. Disgrifiwch y trefniadau i gyfranogwyr roi cydsyniad llawn cyn i'r gwaith o gasglu data ddechrau. Os yw'n amhriodol cael cydsyniad yn y modd hwn, eglurwch sut y ceir cydsyniad a sut y cofnodir hynny yn unol â deddfwriaeth diogelu data gyfredol.
	Cyn i'r cyfranogwyr gymryd rhan yn yr ymchwil, byddaf yn gofyn am eu cydsyniad gwirfoddol ar ffurf taflen wybodaeth i'w llofnodi. Bydd y daflen wybodaeth yn cadarnhau mai gwirfoddol ydy cymryd rhan yn yr ymchwil, nad yw'r ymchwil yn gysylltiedig gyda'u hastudiaethau ac mae hawl i dynnu nôl ar unrhyw adeg. Ail-adroddaf y negeseuon hyn ar lafar cyn cychwyn ar ac yn rheolaidd yn ystod yr ymchwil hefyd i'w hatgoffa. <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>
3	Cyfrinachedd / Anhysbysrwydd Nodwch sut y sicheir cyfrinachedd ac anhysbysrwydd y cyfranogwyr mewn unrhyw gynnyrch. Os na chynigir anhysbysrwydd, eglurwch pam.
	Mi fydd datganiad ar ddechrau'r holiadur sy'n cadarnhau anhysbysrwydd a chyfrinachedd y cyfranogwyr a'r hawl i dynnu nôl ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwil (BERA, 2018). Wrth gyflwyno'r holiadur bydd pob cyfranogwr yn derbyn derbyneb sy'n cynnwys rhif, dyddiad ac amser cyflwyno'r holiadur fydd ond yn hysbys i'r cyfranogwr a'r ymchwilydd. Ni fydd enwau'r cyfranogwyr yn gysylltiedig gyda'r rhif, dyddiad ac amser cyflwyno. Pan ddaw at y grwpiau ffocws, byddaf yn cymryd recordiadau sain (nid fideo) o'r cyfweiliadau ar ddyfais <i>Surface Pro</i> a ddarperir i mi gan y brifysgol er mwyn i mi eu hadysgrifio'n ddiweddarach. Bydd hyn yn caniatáu i mi sicrhau bod y data a ddaw o'r cyfweiliadau grŵp ffocws wedi'u cofnodi'n gywir. Yn ystod cyfweiliadau'r grwpiau ffocws, fy mwriad ydy cymryd nodiadau maes cyffredinol ac ni fydd y nodiadau hyn yn cynnwys enwau'r cyfranogwyr nac unrhyw wybodaeth gellir ei defnyddio i'w hadnabod, e.e. blaenlythrennau'u henwau. Fel gyda'r holiadur, byddaf yn cadarnhau bod cymryd rhan yn y grŵp ffocws yn wirfoddol, ac yn diogelu anhysbysrwydd a chyfrinachedd y cyfranogwyr trwy defnyddio dull o'u hadnabod (e.e drwy roi rhif i bob un) rhag ofn y byddant yn gofyn i dynnu nôl yn ystod yr ymchwil. <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>

ADRAN J: Diogelu a Storio Data

	A yw'r gweithgarwch ymchwil yn cynnwys data personol (yn ôl diffiniad y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018)?	YDY	NAC YDY
1	Mae "data personol" yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â pherson naturiol adnabyddedig neu adnabyddadwy ('testun data'). Mae person naturiol adnabyddadwy yn un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn arbennig wrth gyfeirio at ddynodydd megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodydd ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, enetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw. Mae unrhyw recordiadau fideo neu sain o gyfranogwyr yn cael eu hystyried yn ddata personol.	☒	☐



	Os YDY, rhwch ddisgrifiad o'r data ac eglurwch pam mae angen casglu'r data hyn:		
2	Byddaf yn cymryd recordiadau sain o'r cyfweiliadau grŵp ffocws ar ddyfais <i>Surface Pro</i> a ddarperir i mi gan y brifysgol er mwyn i mi eu hadysgrifio'n ddiweddarach. Bydd hyn yn caniatáu i mi sicrhau bod y data a ddaw o'r cyfweiliadau grŵp ffocws wedi'u cofnodi'n gywir. Y data a gesglir ydy syniadau a chanfyddiadau'r cyfranogwyr am y cysyniad 'perthyn', sef ffocws canolog fy ymchwil. <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>		
	A yw'n cynnwys data categori arbennig (yn ôl diffiniad y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)?	YDY	NAC YDY
3	Mae "Data categori arbennig" yn golygu data personol sensitif sy'n cynnwys gwybodaeth am y testunau data - (a) tras hiliol neu ethnig, (b) safbwyntiau gwleidyddol, (c) credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg, (d) aelodaeth o undeb llafur (yn ôl ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992), (e) iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol, (f) bywyd rhywiol, (g) geneteg, (h) data biometrig (a ddefnyddir i ddibenion adnabod),	☒	☐
	Os YDY, rhwch ddisgrifiad o'r data categori arbennig ac eglurwch pam mae angen casglu'r data hyn:		
4	Mae data tras hiliol neu ethnig eisoes yn cael ei casglu a'i defnyddio gan y brifysgol er mwyn gofalu bod cyfartaledd a thegwch yn cael eu profi gan grwpiau penodol o fyfyrwyr. Mae lles, cynnydd a chyrhaeddiad y grwpiau hyn yn cael eu harolygu gan Estyn fel rhan o'i fframwaith arolygu. Byddaf yn gwneud defnydd o'r data hyn i weithredu dull samplu bwriadol ar gyfer aelodau'r grwpiau ffocws, ac mae canfyddiadau'r cyfranogwyr hyn o'r cysyniad 'perthyn' yn ganolbwynt i fy ymchwil. <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>		

	A fydd data o'r gweithgarwch ymchwil (data a gasglwyd, drafftiau'r traethawd ymchwil, neu ddeunyddiau i'w cyhoeddi) yn cael eu storio yn unrhyw rai o'r ffyrdd canlynol:	BYDD	NA FYDD
5	Ffeiliau llaw (h.y. ar bapur)?	☒	☐
6	Cyfrifiaduron y brifysgol?	☒	☐
7	Cyfrifiaduron cwmnïau preifat?	☐	☒
8	Cyfrifiaduron cartref neu bersonol eraill?	☐	☒
9	Gliniaduron / CDs / disgyrwyrr cludadwy / cofbinnau?	☐	☒
10	Storio yn y "cwmwl" neu wefannau?	☒	☐
11	Arall – noder:	☐	☒
12	Yn achos yr holl ddata a storir, eglurwch y mesurau sydd ar waith i sicrhau diogelwch y data a gasglwyd, cyfrinachedd y data, gan gynnwys manylion gweithdrefnau gwneud copi wrth gefn, diogelu â chyfrinair, amgryptio, gwneud yn ddienw a rhoi dan ffugenw:		
	Ar ôl i'r ymchwil yma orffen, byddaf yn dileu y wybodaeth a gasglwyd ac ni chaiff data crai ei rannu tu hwnt i'r ymchwilydd (a'i goruchwyliwr, pe bai angen).		
	Byddaf yn dilyn Gweithdrefn Rheoli Cofnodion y Brifysgol a Pholisi Rheoli Data Ymchwil PCYDDS wrth storio'r data a gasglwyd.		
	Bydd y taflenni gwybodaeth sy'n cynnwys caniatâd gwirfoddol gwybodus yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd ffeilio dan glo yn swyddfa'r ymchwilydd sydd hefyd dan glo er mwyn		



	sirchau cyfrinachedd a diogelu hunaniaeth y cyfranogwyr. Byddent yn cael eu dinistrio cyn gynted ag y bydd yr ymchwil wedi gorffen. Dilynaf ganllawiau BERA (2018) a chanllawiau Diogelu Data y brifysgol er mwyn diogelu hunaniaeth a gwybodaeth bersonol y cyfranogwyr a sirchau anhysbysrwydd. Caiff data crai (recordiad sain o'r cyfweiliadau grŵp ffocws) ei storio ar gyfrifiadur a ddarperir gan y brifysgol ac sydd wedi ei ddiogelu gan gyfrinair a system dilysu dau gam. Caiff y data crai ei sotrio yn y 'cwmwl' ar feddalwedd Microsoft Office 365 y brifysgol sydd hefyd wedi ei ddiogelu gan gyfrinair a system dilysu dau gam. Caiff data crai ei dileu yn syth ar ôl dadansoddi'r data (h.y. dileu'r recordiad sain o'r cyfweiliadau grŵp ffocws). <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>
--	--

	Diogelu Data		
	A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys unrhyw rai o'r gweithgareddau canlynol:	BYDD	NA FYDD
13	Trosglwyddo data electronig mewn unrhyw ffurf?	☐	☒
14	Rhannu data ag eraill yn y Brifysgol y tu allan i'r tîm ymchwil uniongyrchol?	☐	☒
15	Rhannu data â sefydliadau eraill?	☐	☒
16	Allforio data y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu fewnforio data o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig?	☐	☒
17	Defnyddio cyfeiriadau, codau post, ffacsys, e-byst neu rifau ffôn personol?	☐	☒
18	Cyhoeddi data a allai ganiatáu adnabod unigolion?	☐	☒
19	Defnyddio system rheoli data?	☐	☒
20	Archifo data?	☐	☒
21	Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, rhowch fanylion llawn, gan egluro sut y caiff hyn ei wneud yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data (2018) (ac unrhyw drefn ryngwladol gyfatebol, lle bo'n briodol):		
	<i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>		
22	Rhestrwch bawb fydd â hawl i weld y data a gynhyrchir trwy'r gweithgarwch ymchwil:		
	Yr ymchwilydd – Rachel Bendall Y goruchwyliwr – Nanna Ryder <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>		
23	Rhestrwch bawb fydd â rheolaeth o'r data a gynhyrchir trwy'r gweithgarwch ymchwil ac a fydd yn gweithredu fel ceidwad y data:		
	Yr ymchwilydd – Rachel Bendall <i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>		
24	Rhowch fanylion y trefniadau storio data, yn cynnwys y mesurau diogelwch sydd yn eu lle i ddiogelu'r data, ble caiff y data eu storio, am ba hyd, ac ym mha ffurf. A fydd y data'n cael eu harchifo – os felly, sut ac os na, pam.		
	Dilynaf ganllawiau BERA (2018) a chanllawiau Diogelu Data y brifysgol er mwyn diogelu hunaniaeth a gwybodaeth bersonol y cyfranogwyr a sirchau anhysbysrwydd. Caiff data crai (recordiad sain o'r		



	cyfweiliadau grŵp ffocws) ei storio ar gyfrifiadur a ddarperir gan y brifysgol ac sydd wedi ei ddiogelu gan gyfrinair a system dilysu dau gam. Caiff y data crai ei sotrio yn y 'cwmwl' ar feddalwedd Microsoft Office 365 y brifysgol sydd hefyd wedi ei ddiogelu gan gyfrinair a system dilysu dau gam. Caiff data crai ei dileu yn syth ar ôl dadansoddi'r data (h.y. dileu'r recordiad sain o'r cyfweiliadau grŵp ffocws).		
	<i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>		
25	Nodwch a fydd eich data'n cael ei storio yng Nghadwrfa Data Ymchwil PCYDDS (gweler https://researchdata.uwtsd.ac.uk/). Os felly, eglurwch. <i>(Yn fwyaf perthnasol i staff academiaidd)</i>		
	Bydd. Mae polisi prifysgol yn annog ymchwilwyr i ddarparu eu gwaith ar-lein, am ddim i'r darllenydd, cyn gynted a phosibl ar ôl cyhoeddi yn amodol ar briodoliad cywir ac unrhyw amodau a osodir gan y cyhoeddwr.		
	<i>(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)</i>		
26	Cadarnhewch eich bod wedi darllen cyfarwyddyd PCYDDS ar reoli data (gweler https://www.uwtsd.ac.uk/library/research-data-management/)	YDW	☒
27	Cadarnhewch eich bod yn ymwybodol bod angen i chi gadw'r holl ddata tan ar ôl i'ch ymchwil ddod i ben neu ddiwedd eich cyllid	YDW	☒

ADRAN K: Datganiad

Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i chyflwyno yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwyf wedi ceisio nodi unrhyw risgiau a phroblemau sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch ymchwil ac rwyf yn cydnabod f'ymrwymadau innau a hawliau'r cyfranogwyr. Wrth gyflwyno'r cais hwn cadarnhaf drwy hyn fy mod yn ymrwymo i sicrhau y bydd y gweithgarwch ymchwil a enwir uchod yn bodloni Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol sydd wedi'i gyhoeddi ar y wefan: https://www.uwtsd.ac.uk/research/research-ethics/			
1	Llofnod yr Ymgeisydd:	<i>Robindale</i>	Dyddiad: 27.09.23

Ar gyfer Cyflwyniadau MYFYRWYR:

2	Cyfarwyddwr Astudiaethau/ Goruchwyliwr:	Nanna Ryder	Dyddiad: 27/09/23
3	Llofnod:	<i>N. Ryder</i>	

Ar gyfer Cyflwyniadau STAFF:

4	Cyfarwyddwr Academaidd/ Deon Cynorthwyol:		Dyddiad:
5	Llofnod:		

Rhestr Wirio: Cwblhewch y rhestr wirio isod i sicrhau eich bod wedi cwblhau'r ffurflen yn unol â'r canllawiau ac wedi atodi unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol:

☒	Rwyf wedi darllen y nodiadau cyfarwyddyd a ddarperir cyn cwblhau'r ffurflen.
☒	Rwyf wedi cwblhau HOLL ADRANNAU PERTHNASOL y ffurflen yn llawn.
☒	Cadarnhaf fod y gweithgarwch ymchwil wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor.
☐	Rwyf wedi atodi copi o'r gymeradwyaeth derfynol/interim gan sefydliad allanol (Ile bo'n briodol).
☐	Rwyf wedi atodi asesiad risg llawn (Ile bo'n briodol) TICIWCH HWN DIM OND OS YDYCH WEDI ATODI ASESIAID RISG LLAWN
☒	Rwy'n deall mai fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau y bydd y gweithgarwch ymchwil a enwir uchod yn bodloni Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol.
☒	Cyn cychwyn casglu data rwy'n deall ei bod yn rhaid i'r holl ddogfennau sydd wedi'u hanelu at ymatebwyr (yn cynnwys taflenni gwybodaeth, ffurflenni cydsynio, holiaduron, rhaglenni cyfweiliadau ac ati) gael eu cadarnhau gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau/Goruchwyliwr, y tiwtor modwl neu'r Cyfarwyddwr Academaidd.

MYFYRWYR YMCHWIL YN UNIG

Ar ôl ei chwblhau, cyflwynwch y ffurflen hon trwy'r **Porth Coleg Doethurol ar MyTSD** (<https://mytsd.uwtsd.ac.uk>).

MYFYRWYR YMCHWIL A STAFF YN UNIG

Wrth brosesu'r cais hwn rhaid cyflwyno pob gohebiaeth sy'n ymwneud â'r cais yn ysgrifenedig a'i hanfon drwy e-bost i pgresearch@uwtsd.ac.uk, gyda'r teitl 'Cymeradwyaeth Foesegol' a'ch enw i ddilyn.

Dylai **MYFYRWYR AR RAGLENNI ISRADEDDIG NEU RAGLENNI MEISTR A ADDYSGIR** gyflwyno'r ffurflen hon (a chael y canlyniad) trwy systemau a eglurir i chi gan y goruchwyliwr/ arweinydd modwl.